



Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020

Pwyllgor Monitro'r Rhaglen - Cyfarfod 5
 Dydd Iau 24 Tachwedd 2016 10.30am
 Gwesty'r Clarion, Corc, Iwerddon

		Papurau
1	10:30 – 10:45 Croeso, Agoriad a Chyflwyniad - Stephen Blair (Cadeirydd) a Damien O'Brien (Cyd-gadeirydd)	
2	10:45 – 10:55 Cofnodion Cyfarfod 4 Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, gan gynnwys y pwyntiau gweithredu – 7 Gorffennaf 2016 Conwy,	IWPMC1420(05)01
3	10:55 – 11:25 Pontio o'r UE a dyfodol y Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd	Ar lafar
	11:25 – 11:40 <i>Egwyl Goffi</i>	
4	11:40 – 12:10 Adroddiad Diweddaru'r Rhaglen - Cyd-ysgrifenyddiaeth – Linda Weaver	IWPMC1420 (05)02
5	12:10 – 12:25 Diweddariad Llafar Swyddogion Gweithrediadau – Bethan Thomas a Breda Curran/Emma Doran	Ar lafar
6	12: 25 – 12:35 Diweddariad Cyfathrebu	IWPMC1420(05) 03
7	12:35 Dyddiad y cyfarfod nesaf	
8	12:40 Unrhyw fater arall	

IRELAND WALES
2007 – 2013



Cyfarfod 17 Pwyllgor Monitro'r Rhaglen 2007-2013

		Papurau
1	12:40 – 12:55 Adroddiad Gweithredu Terfynol 2007-2013	PMC 17 01
2	12:55 – 13:00 Unrhyw Fater Arall	

Cyd-ysgrifenyddiaeth – Tachwedd 2016



Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020

Pwyllgor Monitro'r Rhaglen – Cyfarfod 5

Pegasus 4, Gwesty'r Clarion, Corc, Iwerddon

24 Tachwedd 2016

Dangosir rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn Atodiad 1.

Eitem Agenda 1 – Croeso – Agoriad a Chyflwyniad.

1. Croesawodd Stephen Blair (SB), y Cadeirydd, yr aelodau i Gorc a phumed cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020. Cyflwynodd y Cadeirydd Agnes Monfret, Pennaeth Uned yr UE, Cydweithrediad Trawsffiniol Ewropeaidd DG Regio (AM) i'r cyfarfod a oedd yn bresennol yn lle Maria-Auxiliadora Valpuesta-Contreras, y Swyddog Desg.

2. Diolchodd Damien O'Brien (DOB), y Cydgadeirydd, i SB a'i gydweithwyr yn Iwerddon am y lletygarwch a roddwyd i'r holl aelodau a swyddogion yn ystod cinio croeso'r noson flaenorol.

3. Cadarnhaodd DOB fod WEFO wedi sicrhau dynodiad ffurfiol fel yr Awdurdod Rheoli ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru. Roedd yr Awdurdod Archwilio wedi cyhoeddi barn ddiamod ar Adroddiad Erthygl 72 ac roedd yn fodlon ar systemau'r Awdurdod Rheoli. Roedd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, wedi llofnodi'r gorchymyn dynodi a oedd yn golygu

bod modd i WEFO gyflwyno hawliadau taliad i'r Comisiwn a chodi cyllid. Byddai'r hawliad cyntaf yn cael ei anfon ym mis Rhagfyr.

4. Rhoddodd DOB ac SB wybod i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen am ymddiheuriadau am absenoldeb a chyflwyno'r eilyddion a oedd yn bresennol.

Eitem Agenda 2 Cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglen – 7 Gorffennaf 2016 Conwy.

5. Adolygodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gofyn am gywiriadau a sylwadau.

6. Cododd Agnes Monfret (AM) bryder ynghylch paragraff 19 a nododd fod Swyddog Desg yr UE wedi dweud nad oedd modd iddi fynd i gyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (7 Gorffennaf 2016) ond ei bod wedi trefnu i rywun fynd yn ei lle. Esboniodd AM yr amgylchiadau a oedd yn golygu nad oedd cynrychiolaeth CE ac awgrymu dileu paragraff 19.

7. Cadarnhaodd AM ei bod, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn, wedi methu cynnig sylwadau ar eitem Pontio'r UE, ond ei bod yn fodlon gwranddo ar y drafodaeth.

8. Cadarnhaodd y Pwyllgor Monitro'r Rhaglen y cofnodion fel cofnod gwir o'r cyfarfod, yn amodol ar ddileu paragraff 19.

Eitem Agenda 3 – Pontio o'r UE a dyfodol Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd

9. Pwysleisiodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig i aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, fel llysgenhadon y rhaglen, gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am faterion pontio o'r UE fel y gallent roi'r wybodaeth gywir ddiweddaraf i'w hetholwyr a'u cymunedau. Roedd yn

bwysig i aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen fod yn ymwybodol o'r camau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu'r rhaglen.

10. Cydnabu'r Cydgadeirydd y bu cyfnod digroeso o ansicrwydd. Roedd yr Awdurdod Rheoli a'i bartneriaid yn Iwerddon yn awyddus i raeadru neges glir i bartneriaid bod y rhaglen yn gwbl agored ar gyfer busnes. Cyflwynodd y Cydgadeirydd Desmond Clifford (DC), Prif Ysgrifennydd Preifat i Brif Weinidog Cymru a'r arweinydd ar gydlynu strategaeth trafod Llywodraeth Cymru wrth i'r cyfnod pontio fynd rhagddo.

11. Eglurodd DC ei rôl i'r aelodau fel cydlynu sefyllfa Llywodraeth Cymru ar holl faterion Brexit, gan gadarnhau bod y Llywodraeth yn edifarhau'r canlyniad yn fawr. Roedd y Prif Weinidog wedi ymgyrchu'n gryf dros bleidlais i aros, ond roedd y Prif Weinidog yn glir bod yn rhaid dilyn democratiaeth.

12. Esboniodd DC fod ei dîm yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU wrth gynrychioli buddiannau Cymru drwy'r cyfnod pontio a bod ganddo farn glir o ran sut beth fyddai Brexit yn Llywodraeth Cymru.

13. Cadarnhaodd DC ymrwymiad Llywodraeth Cymru i raglen Iwerddon Cymru a'i hariannu, gan gyfeirio at warant ariannu Trysorlys Ei Mawrhydi. Roedd y berthynas rhwng Cymru a'i chymdogion yn Iwerddon yn hynod bwysig a byddai'n parhau y tu allan i'r UE, o ystyried y cwllwm agos rhwng y ddwy wlad a'r ddaearyddiaeth forol a rennir rhyngddynt – ar y cyd byddai'n bwysig gweithio tuag at sefydlu strwythurau a ffynonellau cyllid i'n galluogi i barhau i gydweithredu.

14. Cyfeiriodd DC at gyfarfod Cyngor Prydain Iwerddon a fyddai'n cael ei gynnal yng Nghaerdydd ar 25 Tachwedd. Roedd Gweinidogion yn siarad yn ddwyochrol ac roedd Llywodraeth Cymru yn llunio sefyllfa trafod. Un o'i gofynion fyddai parhau â mynediad at raglen Iwerddon Cymru ar ôl ymadael; roedd cynseiliau ar gyfer ymgysylltu, gan gynnwys y rhai a weithredir, er enghraifft, gan Norwy – byddai angen

trafod y berthynas â'r UE i barhau i ganiatáu mynediad at Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

15. Crynhodd DC y digwyddiadau ynghylch achos Uchel Lys y DU ac achos y Goruchaf Lys ar 5 Rhagfyr ynghylch tanio Erthygl 50; byddai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn ymuno â'r gwrandawriad hwn. . Nod yr UE oedd tanio Erthygl 50 cyn mis Mawrth 2017. Pe bai dyfarniad yr Uchel Lys yn cael ei gadarnhau, byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU roi gwybod i Senedd y DU sut roedd yn ymdrin â'r trafodaethau. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu hyn gan ei fod yn ddatblygedig o ran ei meddwl. Roedd DC o'r farn y dylai Llywodraeth y DU ddal i fodloni terfyn amser mis Mawrth i danio Erthygl 50 hyd yn oed os oedd angen cyflwyno deddfwriaeth.

16. Cadarnhaodd y Cydgadeirydd ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon i raglen Iwerddon Cymru, a ailbwysleisiwyd mewn cyfarfod Gweinidogol yn Nulyn ym mis Hydref lle roedd yr awydd i ddatblygu a dyfnhau'r berthynas wedi'i gadarnhau. Roedd Gwarant Ariannu'r DU bellach ar waith a oedd yn golygu y byddai Llywodraeth y DU yn gwarantu cyllid i brosiectau tra y bydd y DU yn aros yn yr UE hyd yn oed os ceir gwariant ar ôl ymadael.

17. Roedd y warant yn golygu y bydd y ffrwd ariannu gan y DU ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd tra bo'r DU yn yr UE yn cael ei sicrhau. Fel yr oedd pethau, roedd yn debygol y byddai'r rhaglen yn parhau i ariannu prosiectau hyd at wanwyn 2019. Y bwriad oedd sicrhau y byddai ymrwymiad y rhaglen gyfan yn dod dan gwmpas y warant erbyn mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, roedd yn amlwg na fyddai'r Awdurdod Rheoli a'i bartneriaid yn aberthu ansawdd er mwyn sicrhau cyflymder ac y byddai prosiectau'n parhau i gael eu gwerthuso yn erbyn y gweithdrefnau arfarnu cadarn y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhaglen gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen.

18. Rhoddwyd gwybod i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen bod trafodaethau wedi'u cynnal rhwng WEFO, Llywodraeth Iwerddon a Chynulliad Rhanbarthol Deheuol (SRA) ynghylch addasiadau i eiriad Llythyr Cynnig Ariannu Iwerddon Cymru. Cytunwyd ar destun terfynol sy'n cynnwys adolygiad ariannol o'r rhaglen yn ystod ail

hanner 2018. Nododd y Cydgadeirydd na ddylid ystyried bod hyn yn peri risg i gyllid a phwysleisiodd bwysigrwydd parhau i anfon negeseuon cadarnhaol a hyderus at randdeiliaid ar ddwy ochr y dŵr. Roedd y rhaglen drawsffiniol yn agored ar gyfer busnes, nid oedd unrhyw risg i gyllid y rhaglen, roedd yn werth ymgysylltu â'r rhaglen o hyd ac roedd pob parti am iddi fod yn llwyddiant.

19. Diolchodd y Cadeirydd i'w Gydgadeirydd a DC am eu natur agored a'u sylwadau cadarnhaol. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai fod angen rhagor o waith gyda buddiannau trydydd sector i gynnig cysur ac annog ymgysylltu â'r rhaglen.

20. Nid oedd AM yn gallu gwneud sylwadau ar y drafodaeth, ond roedd wedi gwrando'n frwd ar y dull pragmatig. Y ffordd orau o ddylanwadu ar achos ar gyfer y dyfodol oedd rhoi'r rhaglen bresennol ar waith yn llwyddiannus; roedd dechrau argyhoeddiadol i raglennu 14-20 yn allweddol. Croesawodd AM ddiwedd yr ymarfer dynodi a'r bwriad i gyflwyno hawliad i'r Comisiwn ym mis Rhagfyr.

21. Gwnaed rhai sylwadau gan aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, un am y sefyllfa ar ôl 2020 ac a oedd ymrwymiad i gyllid o ystyried yr awydd i gydweithio yn y dyfodol. Soniodd y Cadeirydd am bwysigrwydd Môr Iwerddon fel adnodd cyffredin i'r ddwy Aelod-wladwriaeth y byddai angen eu rheoli a'u cynnal o hyd ar ôl Brexit drwy gydweithredu.

22. Cododd cwestiwn am faterion ymarferol ynghylch cadw staff, gan gynnwys ymchwilyr yng ngoleuni Refferendwm UE y DU. Byddai'n bwysig cyfleu neges gadarnhaol y byddai'r holl arian a neilltuwyd yn cael ei dalu i'r buddiolwyr fel y gallai'r gweithrediadau cymeradwy a'r rhai sy'n dod drwy'r broses asesu gael sicrwydd o ran y ffordd ymlaen. Roedd cyfathrebu'n bwysig yn y cyd-destun hwn gan fod llawer yn dibynnu ar ymgysylltu uniongyrchol rhwng yr Awdurdod Rheoli a'r SRA a buddiolwyr wrth sicrhau bod pobl yn deall y cyfnod pontio'n iawn, h.y. y bydd cyllid yn cael ei ymestyn i 2023 lle y bo angen. Nododd y Cydgadeirydd fod nifer o sianeli lle gellid cryfhau'r negeseuon hyn, gan gynnwys gwefan y Rhaglen. Wrth i fwy o weithrediadau gael eu hariannu, byddai momentwm yn cael ei greu ac, yn ei dro, yn codi proffil y rhaglen a'i rhagolwg tymor hir.

23. Yn fwy cyffredin, roedd angen cynnal diddordeb pobl. Soniodd MP (ar ran yr Awdurdod Rheoli) am yr opsiwn o gyhoeddusrwydd a chyfathrebu wedi'u targedu; roedd gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen rôl hefyd yn hyn o beth. Cadarnhaodd JM rôl aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen i ymgysylltu â'u rhwydweithiau a sectorau priodol i gyflwyno negeseuon cadarnhaol. Roedd y Cadeirydd yn agored i'r posibilrwydd sesiynau wedi'u targedu i bartneriaid yn Iwerddon.

Eitem Agenda 4 Adroddiad Diweddarau'r Rhaglen – Cyd-ysgrifenyddiaeth

24. Cyflwynodd Linda Weaver (LW), Pennaeth y Gyd-ysgrifenyddiaeth Adroddiad Diweddarau'r Rhaglen a oedd yn crynhoi'r sefyllfa gyda gweithredu'r rhaglen gydweithredu ers pedwerydd cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ym mis Gorffennaf 2016. Roedd yn cynnwys adroddiad cynnydd ar y gweithrediadau hynny ar y cyd yn y system arfarnu, trosolwg o lefelau ymrwymo grantiau, a gwybodaeth gychwynol am allbynnau rhagolygol ar gyfer y gweithrediadau hynny yn y system. Tynnwyd sylw at y targedau gwariant N+3 hefyd er gwybodaeth. Adolygodd Pennaeth y Gyd-ysgrifenyddiaeth y pwyntiau allweddol.

25. Crynhodd Pennaeth y Gyd-ysgrifenyddiaeth gynnydd pob Echel Blaenoriaeth (PA) gan nodi bod 3 gweithrediad bellach wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol yn PA1 a PA2, gyda thri arall yn cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen ac yn aros i lythyrau cynnig ffurfiol gael eu cyhoeddi. Roedd 13 o gynlluniau busnes wedi'u hystyried gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen.

26. O ystyried y chwe gweithrediad hyn, roedd y sefyllfa ar y prif ymrwymadau ariannol ar gyfer PA 1 a PA 2 yn addawol iawn ac, erbyn hyn, roedd rhagor o weithrediadau PA 3 arall yn yr arfaeth, ynghyd â rhai ymholiadau sydd ar gam cynnar, yn enwedig yng Nghymru. Yn gyffredinol, roedd cynnydd sylweddol yn cael ei wneud gyda lefelau neilltuo'n codi i ryw €29m, 36% o'r dyraniad. Roedd atodiadau i'r papur

yn rhoi manylion am gynnydd yn ôl PA. Fodd bynnag, dylid trin targedau dangosyddion yn eithaf gofalus gan nad oedd costau'r gweithrediadau a oedd yn cael eu hasesu ar y pryd wedi cael eu herio trwy broses asesu'r Gyd-ysgrifenyddiaeth.

27. Byddai'r adroddiad cynnydd nesaf yn cynnwys gwybodaeth fanylach am gynnydd yn erbyn targedau gwariant a dangosyddion y rhaglen wrth i broses weithredu'r rhaglen gyflymu, gan ddefnyddio'r templed a ddosbarthwyd i aelodau yn flaenorol Ac yn unol â Strategaeth Monitro a Gwerthuso'r Rhaglen a gymeradwywyd gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen.

28. Ar gais y Cadeirydd, rhoddodd y Gyd-ysgrifenyddiaeth grynodedb byr o weithrediadau CALIN, pISCES, Dŵr Uisce, Acclimatise a Bluefish. Nododd y Cadeirydd yr ymgysylltu calonogol â'r gymuned a'r diwydiant.

29. Nododd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen gynnydd wrth roi'r rhaglen ar waith. Roedd cwestiynau ynghylch cyflwyno prosiectau i'r Pwyllgor Monitro'r Rhaglen. Roedd yr Awdurdod Rheoli wedi cydnabod bod hyn yn arfer da ac mai'r bwriad oedd i nifer o brosiectau cymeradwy gyflwyno i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen yn y dyfodol. Roedd yr Awdurdod Rheoli yn teimlo y byddai'n amhriodol i brosiectau sydd yn yr arfaeth gyflwyno i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen gan fod y broses o ystyried prosiectau wedi'i mandadu i Bwyllgor Llywio'r Rhaglen a gwneud penderfyniadau ariannu.

30. Tynnodd Pennaeth y Gyd-ysgrifenyddiaeth sylw at baragraff 21 a oedd yn ceisio awdurdodiad Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar gyfer trafod ceisiadau ailbroffilio ac estyniadau prosiectau ariannol a chyflenwi. Cynnig y Gyd-ysgrifenyddiaeth oedd cyfyngu ar y broses o ailbroffilio proffiliau cyflenwi i un ar ôl y cam paratoi oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Dylid diystyru ceisiadau am estyniadau prosiect a dylid dod ag unrhyw danwariant sy'n deillio o hynny yn ôl i bot ariannol y rhaglen ganolog i'w ailddyrranu.

31. Trafododd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen sut y byddai'n gweithio gan fod rhywfaint o bryder am gosbi prosiectau. Pwysleisiodd yr Awdurdod Rheoli bwysigrwydd sicrhau bod trylwyredd rhesymol ar waith yn

ddigon cynnar er mwyn monitro gwariant ac allbynnau - byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud fesul achos. Fodd bynnag, byddai'n hanfodol i fuddiolwyr ddeall y trylwyredd a fyddai'n cael ei gymhwyso i'r broses benderfynu ac wrth reoli'r rhaglen yn gyffredinol. Roedd yr holl weithrediadau'n cael y cyfle i roi cam paratoi ar waith a oedd yn galluogi'r holl waith paratoi i gael ei gwblhau. Barn yr Awdurdod Rheoli oedd y gallai gormod o ailbroffilio arwain at ddadneilltuo sylweddol wrth gau prosiectau ac, yn y pen draw, danwariant wrth gau rhaglenni.

32. Eglurodd Pennaeth y Gyd-ysgrifenyddiaeth bwynt ynghylch yr hyn y gellir ei gyflwyno. Roedd y rhain yn cynnwys yr allbynnau bwriadedig ar lefel prosiect a gafodd eu cynnwys yn y cytundeb ariannu ac roedd yn rhaid i bartneriaid prosiectau eu cyflawni, y cyflymder cyflwyno a chyflawniadau yn erbyn y proffil gwariant. Pwysleisiodd yr Awdurdod Rheoli bwysigrwydd cyflwyno i broffiliau. Yn achos dangosyddion, byddai methu cyflwyno ar lefel prosiect yn cael effaith ganlyniadol ar lefel rhaglen lle y cytunwyd ar dargedau â'r Comisiwn.

33. Codwyd cwestiwn ynghylch goddefeb arbennig ar gyfer estyniadau i'w hystyried ar gyfer prosiectau PA 3, o ystyried nad oedd arian wedi'i ddyrannu i'r un graddau. Esboniodd Pennaeth y Gyd-ysgrifenyddiaeth y byddai angen i brosiectau gyflawni dangosyddion ychwanegol er mwyn cael eu hystyried ar gyfer estyniad; y ffordd orau o weithredu fyddai ailddyrrannu'r arian i brosiect a allai gyflawni. Mewn ymateb i gwestiwn am lefelau dadneilltuo yn rhaglen 2007- 2013, cadarnhaodd David Kelly fod y rhaglen yn gorneilltuo 2% yn ystod y cam gweithredu ac y bydd 97% yn cael ei dynnu o'r dyraniad yn y pen draw.

34. Wrth ymateb i gwestiwn am amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid a'r angen i ystyried hyn gydag unrhyw waith ailbroffilio, cadarnhaodd yr Awdurdod Rheoli hyn fel rhan o'i rôl wrth reoli proses gyflwyno'r rhaglen a'i fod yn rhywbeth a oedd yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

35. Cytunodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar argymhelliad y Gyd-ysgrifenyddiaeth fel y'i nodwyd ym mharagraff 21 y papur ac y byddai'n parhau i adolygu'r mater.

Eitem Agenda 5 Diweddariad Llafar Swyddogion Gweithrediadau

36. Rhoddodd Swyddogion Gweithrediadau Cymru ac Iwerddon ddiweddariad i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen ar y gweithrediadau yn y system. Roedd rhyw ddwsin o syniadau eraill ar gam cynnar o ran diddordeb. Fodd bynnag, roedd canfyddiad bod lefelau diddordeb wedi gostwng yn Iwerddon. Roedd y Swyddogion Gweithrediadau, ar y cyd â'r Awdurdod Rheoli, y Gyd-ysgrifenyddiaeth ac awdurdodau Iwerddon, yn ceisio ailsymbylu ymdrechion, ysgogi diddordeb a rhoi sicrwydd i bartneriaid; fel y nodwyd yn flaenorol, byddai'n ddefnyddiol pe bai Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn gallu cyfrannu at y gwaith hwn. Byddai trafodaeth ynghylch hyrwyddo'r rhaglen yn cael ei chodi yn yr eitem nesaf ar yr agenda.

Eitem Agenda 6 Diweddariad Cyfathrebu

37. Cyflwynodd MP (ar gyfer yr Awdurdod Rheoli) y papur ar ran Uned Cyfathrebu a Briffio WEFO a oedd wedi'i lunio fel diweddariad i Strategaeth Gyfathrebu'r Rhaglen a gymeradwywyd gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen yn 2015.

38. Cyfeiriodd yr Awdurdod Rheoli at rai pwyntiau o bwys;-

39. Roedd yr Awdurdod Rheoli a'i bartneriaid yn Iwerddon yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid y rhaglen, yn enwedig ar ôl canlyniad refferendwm yr UE yn y DU. Ar y cyd, roedd dealltwriaeth o'r angen i roi sicrwydd i bartneriaid ynghylch ymrwymiad i'r rhaglen a'i sefydlogrwydd tymor hwy. Un opsiwn oedd ystyried digwyddiad rhaglen yn 2017 gyda hyn mewn cof.

40. Mae gwefan bwrpasol Iwerddon Cymru wedi cael derbyniad da fel yr adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf ac mae wrth wraidd hyrwyddo buddiannau'r rhaglen a hunaniaeth INTERREG/Rhaglenni

Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Roedd wedi cael tua 3,000 o ymweliadau ar hyn o bryd.

41. Roedd yr Awdurdod Rheoli yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig Twitter a disgwylir i @IrelandWales gyrraedd 500 o ddilynwyr erbyn diwedd y flwyddyn – nodwyd hefyd mai'r bwriad oedd trydar llun o gyfarfod heddiw o Bwyllgor Monitro'r Rhaglen.

42. Cafodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ei gyfeirio at gyhoeddusrwydd ynghylch y gymeradwyaeth ffurfiol a gyhoeddwyd ar hyn o bryd - roedd enghreifftiau o'r cyhoeddusrwydd/sylw'r cyfryngau a roddwyd i'r rhain yn y papur – byddai'r Awdurdod Rheoli yn dilyn y rhain gyda mwy o wybodaeth am y cynigion eraill a ddisgwyliwyd yn fuan iawn.

43. Roedd yr Awdurdod Rheoli yn parhau i weithio gyda phartneriaid prosiectau i wneud y gorau o'r cyhoeddusrwydd drwy gylchoedd oes prosiectau - gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar gyhoeddiadau Gweinidogol a hysbysiadau i'r wasg i nodi cymeradwyo prosiectau ac maent yn annog partneriaid i rannu astudiaethau achos ar gyfer y wefan a Twitter, y mae ganddynt y potensial i fireinio cyfeiriadedd canlyniadau y gofynnir amdano gan y llu o raglenni newydd - mae'n rhywbeth sydd wedi bod yn heriol yn gyffredinol ar gyfer Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, ond roedd yr Awdurdod Rheoli yn teimlo bod hyn yn ffordd o wneud cynnydd, i adrodd y stori y tu ôl i'r ffeithiau a'r ffigurau roedd y rhaglen yn gofyn amdanynt yng nghyd-destun ei thargedau dangosyddion. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar er mwyn tynnu sylw at y cyfarfod ym mis Hydref yn Nulyn rhwng Gweinidogion priodol Cymru ac Iwerddon pan fu iddynt ailadrodd pwysigrwydd Rhaglen Iwerddon Cymru.

44. Pwysleisiodd y Comisiwn bwysigrwydd y maes gwaith hwn a chroesawodd y cyfeiriad at gyfeiriadedd canlyniadau ac adrodd y stori. Gwnaed nifer o sylwadau penodol:-

- Yr angen i osod targedau yn y strategaeth a dangos sut beth fyddai llwyddiant, gan fireinio gwerth ychwanegol Rhaglenni

Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, adrodd y stori wedi'i hategu gan ffeithiau a ffigurau.

- Roedd her o hyd o ran cysylltu â phobl - i ystyried canfyddiad demograffeg penodol, h.y. pobl hŷn a phobl ifanc sy'n ystyried ymgymryd â gweithgarwch;
- Ystyried darparu ffeithiau a ffigurau fel hyperddolen (manteisio ar y defnydd o lwyfan data agored y Comisiwn Ewropeaidd) gyda'r adroddiadau blynyddol yn cael eu bwydo i mewn.
- Ceisio mwy o welededd ar-lein a cheisio cynnwys dolenni i wefannau irelandwales.eu ac INTERACT
- Ceisio mwy o gyhoeddusrwydd cenedlaethol, gan gynnwys defnyddio'r teledu ac ati - diddordeb mewn cyfathrebu â pherfformwyr barn - buddiannau posibl - gwerth ychwanegol cydweithredu trawsffiniol

45. Cynigiodd y Comisiwn Ewropeaidd helpu gydag ymdrechion cyfathrebu os oes angen, er enghraifft drwy rannu gwybodaeth newyddiadurol â rhaglenni ac awgrymodd ddeialog uniongyrchol rhwng y Rhaglen a'i phobl gyfathrebu â REGIO a oedd yn barod i roi cymorth, gan gyfeirio at ddeialog ag INTERACT hefyd.

46. Gwnaeth yr Awdurdod Rheoli bwynt am hanes blaenorol y rhaglen o weithio gyda grwpiau oedran penodol, gan gyfeirio at welededd y prosiect FUTSAL a oedd wedi bod yn hynod weledol ac yn llwyddiannus o ran ymgysylltu â'r cyfryngau ac yn sicr wedi cysylltu â phobl, eto nid oedd wedi denu llawer o ddiddordeb gan y Swyddog Desg ar y pryd. Felly, gofynnodd yr Awdurdod Rheoli am gysondeb negeseuon.

47. Nododd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yr angen i gynnig sicrwydd yn gychwynnol a chadarnhau'r union linellau roeddem am eu cyfathrebu, gan ddefnyddio sianeli presennol a rhagor o waith targedu/cysylltu.

48. Roedd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn teimlo bod angen blaenoriaethu ymdrechion hyrwyddo yn Iwerddon o ystyried y canfyddiad bod diddordeb yn gostwng yno. Byddai'n bwysig cynyddu cysylltiadau, gan gynnwys ystyried gwaith targedu penodol yn Iwerddon i gynnwys cysylltiadau ALI.

49. Adleisiodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen gynnig y Cydgadeirydd i ailedrych ar y Strategaeth Gyfathrebu a'i hadnewyddu i fyfyrion ar y pwyntiau a godwyd a'r hinsawdd rydym bellach yn byw ynddi ar ôl Refferendwm y DU.

Unrhyw Fater Arall

50. Tynnodd y Comisiwn sylw at fenter newydd sy'n deillio o araith Cyflwr yr Undeb - Corfflu Cydsafiad Undeb Ewropeaidd y Comisiwn Ewropeaidd a oedd am adeiladu ar system wirfoddol Ewropeaidd (porth ieuencid). Byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn ymrwymo €1m o Gymorth Technegol mewn cynllun peilot yn 2017 i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli yn yr Awdurdod Rheoli, y Gyd-ysgrifenyddiaeth ac mewn prosiectau. Y Gymdeithas Rhanbarthau Ffiniau Ewropeaidd (AEFR) fyddai'n gwneud y gwaith paru drwy ddefnyddio cydweithwyr INTERREG – a fyddai'n cymryd rhan ymarferol mewn prosiectau sy'n fodlon eu cynnal. Y Comisiwn Ewropeaidd fyddai'n trefnu teithio a chynhaliaeth.

51. Mynegwyd pryder a oedd cyfleoedd gwirfoddoli'n cael eu defnyddio ar draul swyddi amser llawn parhaol. Cafodd y syniad ei groesawu, ond roedd angen bod yn ofalus ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei ganfod. Awgrymodd y Comisiwn Ewropeaidd y gallai hyd y secondiad tua 2 i 6 mis yn iawn fwy neu lai os oedd diddordeb a chadarnhaodd y byddai'r cyfle'n agored i unigolion 18-30 oed ond nid myfyrwyr prifysgol yn unig.

52. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen fyfyrion ar y cyfle hwn.

Eitem Agenda 7 Dyddiad y cyfarfod nesaf

53. Roedd y Gyd-ysgrifenyddiaeth wedi cynnig 27 Ebrill 2017 ar gyfer cyfarfod nesaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglen. Fodd bynnag, tynnodd y Comisiwn Ewropeaidd sylw at bwysigrwydd presenoldeb yn Nigwyddiad Blyneddol INTERREG 2017 a oedd yn cael ei gynnal ar yr adeg hon. Byddai'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu dyddiad newydd maes o law.

**IWERDDON
CYMRU
2007 - 2013**



Cyfarfod 17 Rhaglen Iwerddon Cymru 2007-2013

Eitem Agenda 1 Adroddiad Gweithredu Terfynol (FIR) (gan gynnwys y sefyllfa ar gau rhaglenni)

1. Rhoddodd SB wybod i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen y byddai cau rhaglen 2007-2013 yn ffurfiol yn golygu bod angen llenwi 3 dogfen. Un ohonynt yw'r Adroddiad Gweithredu Terfynol a gyflwynwyd heddiw. Disgwylir cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn diwedd mis Mawrth 2017 a bydd angen i aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ei gymeradwyo'n derfynol.
2. Esboniodd DK y bu'n ofynnol i SRA aros i'r adroddiad archwilio terfynol gael ei lunio er mwyn galluogi'r canlyniadau i gyfrannu at yr Adroddiad Gweithredu Terfynol. Nododd DK y bu nifer o fach o wallau ac ailhawlio grantiau.
3. Cadarnhaodd DK y byddai sylwadau ar y FIR yn cael eu gwahodd drwy weithdrefn ysgrifenedig ac y byddai'n rhaid i'r rhai sydd am roi adborth wneud hynny o fewn 10 diwrnod gwaith. Os na cheir dim sylwadau nac adborth, bydd yr adroddiad yn mynd rhagddo gan nodi cymeradwyaeth Pwyllgor Monitro'r Rhaglen.
4. Cadarnhaodd DK fod SRA wrthi'n cyflwyno'r hawliad terfynol.
5. Cytunodd DK i estyn y naratif yn dilyn cais gan aelod am ragor o naratif ar y system godio a ddefnyddiwyd ar y tabl crynodeb o'r defnydd o arian a geir ar dudalen 9.
6. Cadarnhaodd DK fod y materion ynghylch y Rheolaethau Lefel Gyntaf wedi'u datrys.

7. Holodd aelod am y gyfradd gadw 5% a chadarnhaodd DK y byddai'r 5% olaf yn cael ei ryddhau pan fyddai'r UE yn fodlon bod y rhaglen wedi'i chwblhau'n llwyddiannus.
8. Nododd DK mai'r lefel neilltuo derfynol oedd tua 96%.
9. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan yr aelodau ar yr adroddiad.
10. Gofynnodd AM, yn ogystal â threfnu i'r ddogfen fod ar gael ar-lein, i ddarnau gael eu cynhyrchu ar gyfer y Prosiect Arf Cyfathrebu.
11. Cadarnhaodd DK ac SB y byddai dogfen sgleiniog hawdd ei defnyddio sy'n dathlu llwyddiant y rhaglen yn cael ei llunio maes o law.

Eitem Agenda 2 – Unrhyw Fater Arall

12. Dim byd i'w adrodd.
13. Sylwadau i gloi gan y Cadeirydd.

Diolchodd y Cadeirydd i holl aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen am gyfarfod cadarnhaol, a dymunodd daith ddiogel i'r rhai ag un hir o'u blaenau.

Atodiad 1 – Rhestr o'r rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod

Enw	Sefydliad
Damien O'Brien	WEFO (Cydgadeirydd)
Jane McMillan	WEFO
Mike Pollard	WEFO
Linda Weaver	WEFO
Bethan Thomas	WEFO
Phillipa Morgan	WEFO
Stephen Blair	SRA (Cadeirydd)
David Kelly	SRA
Breda Curran	SRA
Emma Doran	SRA
Caitriona Phelan	SRA
Patricia Hennessy	DPER
Desmond Clifford	Llywodraeth Cymru
Agnes Monfret	Swyddog Desg yr UE
Y Cyng. Ronnie Hughes	CLILC
Barbara Burchell	CLILC
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Janine Downing	CGGC
Peter Quantick	Sector Preifat
Jonathan Earl	Chambers Ireland
Danielle Martin	WHEEL
Dave Corcoran	Adran yr Amgylchedd, Cymuned a Llywodraeth Leol
Y Cyng. Brian McDonagh	E&MRA
Bernard O'Shea	Adran Trafnidiaeth, Twristiaeth a Chwaraeon – Llywodraeth
Jennifer Billings	Adran Menter Swyddi ac Arloesedd
Ciaran Kelly	Sefydliad Morol
Sarah Clarke	ICTU

Y Cyng. Seamus Cosai	
Stewart Roche	Awdurdod Addysg Uwch